

HYFFORDDI WRTH
ADDYSGU YW'R
HAFALIAD
PERFFAITH I FFION.

Astudiaeth
Achos
Ffion
Pennant



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

O ystyried ei bod ar fin dechrau addysgu Mathemateg i fyfyrwyr ysgol uwchradd yn Nolgellau, mae'n rhyfedd meddwl nad oedd Ffion Pennant o Wynedd yn hoff o'r pwnc o gwbl am lawer o'i dyddiau ysgol.

Ond newidiodd hynny i gyd yn ei choleg chweched dosbarth lle cafodd ei dylanwadu'n fawr gan ei hathro Mathemateg, oedd â chymaint o angerdd am y pwnc nes iddo ei feithrin ym mhob un o'i fyfyrwyr.

"Mae'n debyg mai dyna ble dechreuais feddwl am y posibilrwydd o addysgu fel gyrfa – gweldd ei gariad at bwnc a sut roedd yn mynd i gymaint o ymdrech i drosglwyddo'r wybodaeth honno i'w fyfyrwyr – a'r pleser a roddai hynny iddo. Roeddwn i'n meddwl bod hyn yn wych – ac roeddwn wedi penderfynu – Mathemateg oedd fy nyfodol! "

Aeth Ffion ymlaen i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yn ystod ei thrydedd blwyddyn ymgeisiodd i wneud cwrs TAR er mwyn gwireddu ei dyhead i fod yn athrawes. Yn ystod ei blwyddyn olaf, fodd bynnag, dioddefodd byliau o orbryder, ac er mwyn gwella ei hiechyd meddwl, penderfynodd gymryd seibiant o'i hastudiaethau.

"Penderfynais ddefnyddio fy ynni yn rhywle arall a chymerais swydd gyda Ffermwyr Ifanc Cymru fel Swyddog Datblygu'r Gymraeg, yn cwmpasu Cymru gyfan ac yn gweithio gyda sefydliad roeddwn i wedi bod yn gysylltiedig ag ef o oedran cynnar. Yn ystod y cyfnod hwn roeddwn i'n ffodus o gael y cyfle i gwblhau fy astudiaethau drwy ddysgu o bell a graddio ym Mhrifysgol Aberystwyth gyda 2:1 mewn Mathemateg."

Roedd y freuddwyd o sefyll o flaen dosbarth yn dal yn fyw i Ffion, ond roedd hi'n betrusgar am ddychwelyd i addysg llawn-amser oherwydd ei phroblemau iechyd blaenorol.

"Ar ôl gweithio 9-5 am flwyddyn, roeddwn i'n awyddus i barhau mewn modd tebyg gan fod y drefn honno'n gweithio'n dda i mi. Felly pan welais gyrsiau newydd y Brifysgol Agored a'r cyfleoedd rodden nhw'n eu cynnig i weithio tra'n hyfforddi – wel, roedd fel pe bydden nhw wedi cael eu creu'n arbennig i mi!

"Roeddwn yn ffodus o fod wedi gallu sicrhau swydd yn fy hen ysgol - Ysgol Bro Idris, sydd bellach yn ysgol 3-16 – a dwi'n methu aros i ddechrau rhannu fy angerdd gyda'r genhedlaeth nesaf o fathemategwyr brwd yno."

Mae gan Ffion hefyd amcanion eraill i'w gwireddu gan ei bod yn gobeithio cyfrannu at gefnogi targed Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a chwricwlwm newydd i'w gyflwyno i ddisgyblion.

"Rydyn ni'n byw mewn cyfnod mor gyffrous – oes, mae heriau, ond mae cymaint y gallwch ddylanwadu arno fel athrawes. Yn fy maes pwnc i, mathemateg, alla'i ddim newid llawer o ran cynnwys y cwrs ei hun, ond mae'r cwricwlwm newydd yn rhoi mwy o ryddid i mi o ran sut i'w gyflwyno a'i wneud yn llawer mwy perthnasol i fywydau bob dydd y dysgwyr – gan eu paratoi ar gyfer bywyd ar ôl ysgol.

"Dwi'n awyddus hefyd i ddatblygu geirfa benodol y pwnc yn y Gymraeg, er mwyn sicrhau ei bod yn fwy hygyrch. Does dim rheswm i newid i astudio trwy gyfrwng y Saesneg a dwi'n bwriadu mynd â'm myfyrwyr gyda mi drwy gydol y daith ysgol. "

"Mae'r llwybrau newydd hyblyg hyn gan Lywodraeth Cymru i addysgu, a gynigir gan y Brifysgol Agored, yn hollol ddelfrydol – alla'i ddim aros i ddechrau arni a dylanwadu ar genedlaethau'r dyfodol."

#AddysguCymru
www.addysgwyr.cymru